# Cofnodion heb eu cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod Bwrdd CNC (Cyhoeddus) |
| **Lleoliad:** | Aberystwyth ac ar Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 18 Mawrth 2026 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Neil Sachdev, Cadeirydd<br>Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd<br>Ceri Davies, Prif Weithredwr<br>Karen Balmer<br>Dr Hushneara Begum<br>Rebecca Colley-Jones<br>Dr Pete Fox<br>Yr Athro Calvin Jones<br>Lesley Jones<br>Yr Athro Rhys Jones<br>Mark McKenna<br>Helen Pittaway<br>Adam Taylor |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol** | Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach<br>Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol<br>Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Lle a Gwasanaeth |
| **Unigolion yn bresennol:** | Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem)<br>Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol |
| **Sylwedyddion yn bresennol:** | Fen Turner |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | Louise White, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Fflyd a Chyfleusterau |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Rhiannon Spencer, Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd<br>Sian Johnston, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd<br>Lauren Hughes, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd |
| **Datganiadau o fuddiant** | Neb |

## Eitem 1. Cychwyn y cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod, a chroesawodd bawb. Nodwyd y datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel uchod. Roedd Banc Lloegr wedi gofyn i'r Athro Steve Ormerod ymuno â'r panel arbenigol i lunio rhestr fer o fywyd gwyllt i'w hychwanegu at y gyfres nesaf o bapurau punnoedd.

2. Dymunodd y Cadeirydd Eid Mubarak i'r rheini a oedd yn dathlu.

## Eitem 2. Cofnodion yr adolygiad

## Eitem 2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 12 Chwefror

3. Adolygwyd cofnodion cyfarfod cyhoeddus y bwrdd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, a chytunwyd arnynt gyda mân ddiwygiadau.

## Eitem 2B. Adolygu'r cofnod o gamau gweithredu

4. Adolygwyd y cofnod o gamau gweithredu, a darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am gam gweithredu rhif 6. Nodwyd y byddai'n anodd dirwyn y cam gweithredu hwn i ben oherwydd ei fod yn drafodaeth barhaus ynghylch cynlluniau aml-flwyddyn a chyllid. Cytunodd y bwrdd i ddirwyn y weithred hon i ben ar y sail ei bod yn parhau i fod yn fusnes fel arfer.

## Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

5. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, a diolchodd i'r Athro Steve Ormerod a Karen Balmer am eu cyfnod ar y Bwrdd. Nodwyd bod dau aelod newydd o'r Bwrdd wedi eu penodi, ac y byddent yn cychwyn cyn bo hir. Roeddent yn aros am gliriad diogelwch.

6. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd am gyfarfodydd yr oedd wedi bod yn bresennol ynddynt ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Cynhaliwyd cyfarfod â'r Dirprwy Brif Weinidog, a diolchwyd iddo am ei arweinyddiaeth dros yr amgylchedd yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb hefyd â Jane Hanson, Cadeirydd Dŵr Cymru. Roedd bwriad Dŵr Cymru o wneud y peth iawn i ddŵr yng Nghymru yn glir, ond pwysleisiwyd ei bod yn annerbyniol i afonydd a moroedd gael eu llygru.

7. Nodwyd y byddai'r Cadeirydd bellach yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yng ngoleuni'r ffaith bod yr Athro Steve Ormerod ar fin ymddiswyddo. Ymhlith y cyfarfodydd eraill oedd galwad gyflwyniadol gyda chynrychiolwyr arweiniol yr undebau llafur, a chyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru lle'r oedd pren wedi cael ei drafod. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi ymweld â swyddfa CNC Cross Hands, a byddai'n dychwelyd am ymweliad arall yn fuan. Roedd angen sicrwydd ar gydweithwyr gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol y byddai gwaith CNC yn mynd rhagddo beth bynnag fyddai canlyniad etholiad y Senedd.

## Eitem 4. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr

8. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem, a thynnodd sylw at y materion allweddol o'i hadroddiad. Roedd ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad Rheoleiddio Niwclear a gynhaliwyd yn 2025 wedi dod i law yr wythnos flaenorol. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd yr Economi a'r Dirprwy Brif Weinidog i drafod eu barn nhw ar hyn. Byddai angen i CNC weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar hyn. Roedd CNC yn gefnogol o'r adolygiad mewn egwyddor, ond byddai hefyd yn pwysleisio bod angen ystyried datganoli. Byddai tasglu yn cael ei sefydlu ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu yng Nghymru, ond gyda systemau symlach ar waith. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol fyddai arweinydd y Tîm Gweithredol ar gyfer y mater hwn.

9. Bu'r Bwrdd yn trafod yr uchelgais a'r gefnogaeth i adeiladu prosiectau niwclear yng Nghymru. Roedd safle Wylfa a safle Trawsfynydd wedi cael eu nodi fel safleoedd arweiniol a safleoedd i ddysgu ohonynt ar gyfer y DU, i lywio'r hyn a fyddai'n dilyn mewn mannau eraill yn y DU. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i weld beth y gellid ei wneud yng Nghymru i yrru'r agenda niwclear yn ei blaen. Roedd y polisïau wedi eu hen sefydlu, ac roedd safle Wylfa wedi bod yn allweddol ar gyfer datblygiad niwclear yng Nghymru erioed. Nodwyd efallai y byddai angen trafodaeth ar ynni niwclear mewn cyfarfod gan y Bwrdd yn y dyfodol.

10. Holwyd ynghylch datblygu set o sgiliau ar gyfer ynni niwclear yng Nghymru neu CNC. Roedd hyn wedi cael ei drafod â'r Dirprwy Brif Weinidog oherwydd bod angen cryfhau'r sgiliau hyn yng Nghymru, ymhlith sgiliau amgylcheddol eraill. Roedd CNC yn parhau i fod â chytundeb lefel gwasanaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd ar waith niwclear.

11. Cyfeiriwyd at y sefyllfa yn y Dwyrain Canol, a gallai problemau fel prinder cemegau trin dŵr a chyflenwadau tanwydd gael effaith. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd fod

CNC wedi ystyried cynlluniau parhad busnes ar gyfer sefyllfaoedd fel hyn yn y gorffennol yn achos rhyfel Wcráin, ac yr oedd yn adolygu'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn wydn.

12. Roedd cyfarfod wedi ei gynnal â'r Dirprwy Brif Weinidog, yr Athro Steve Ormerod a'r Prif Swyddog Gweithredol i drafod y broses o wneud penderfyniadau ynghylch y parc cenedlaethol. Roedd yr holl dystiolaeth yn dilyn y cyfnod ymgynghori bellach wedi ei darparu i Lywodraeth Cymru ac roedd penderfyniad yn debygol cyn diddymu'r Senedd.

13. Disgrifiwyd y Tasglu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad preifat y Prif Swyddog Gweithredol i'r Bwrdd. Roedd ffordd ymlaen ar gyfer adferiad cadarnhaol yn yr ardaloedd cadwraeth arbennig morol, gyda gwaith yn cael ei wneud ar ddatrysiadau cydweithredol. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd y gellid defnyddio'r offer sy'n cael eu datblygu mewn lleoliadau eraill, megis dalgylchoedd afonydd lle'r oedd niwtraliaeth maethynnau hefyd yn broblem. Trafodwyd gweithio mewn partneriaeth, ac atgoffwyd y Bwrdd o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus fel enghraifft dda o hyn.

14. Holwyd am gysylltiadau grid, ac esboniwyd bod sawl ffordd o ystyried hyn, gan gynnwys rhoi'r ceblau o dan y ddaear. Roedd angen cyflwyno cyngor a naratif o ran cysylltiadau grid mewn ffordd hawdd ei defnyddio gan amlinellu'r buddion.

15. Roedd CNC wedi cael cyngor i adrodd ei straeon yn effeithiol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a oedd yn bwysig i'r cyhoedd, ac i ddefnyddio ei lais statudol i gynghori Llywodraeth Cymru pan nad oedd polisïau neu ddeddfwriaeth yn addas i'r diben. Byddent yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar faterion lle gellid cyflwyno llais unedig.

## Eitem 5. Adroddiadau diweddaru'r pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 5 Mawrth

16. Dywedodd Karen Balmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, fod y pwyllgor wedi trafod y broses o reoli risg ar draws y sefydliad, ac awgrymodd nad oedd CNC yn y sefyllfa a ddymunir eto. Roedd y pwyllgor wedi trafod yr angen i drafod risgiau ym mhob un o'r pwyllgorau, a gellid gwneud hyn drwy Power BI.

17. Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod drafft terfynol y cyfrifon, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd y cynnydd a wnaed ar ganlyniad cyfyngedig yr archwiliad mewnol ar y P11D, ac roedd y Tîm Gweithredol yn adolygu'r ffordd y gellid bwrw ymlaen â'r argymhellion.

### Y Pwyllgor Cyllid – 12 Mawrth

18. Rhoddodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod diweddar y pwyllgor, pan drafodwyd y strategaeth gyllidebol a chymeradwyaethau ariannol a fyddai'n cael eu nodi yn sesiwn breifat y Bwrdd.

### Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 4 Mawrth

19. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, lle trafodwyd CNC yn symud i fusnes fel arfer; adroddiad y trydydd chwarter ar lesiant, iechyd a diogelwch; adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; a dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhywedd.

20. Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod y gwahaniaeth rhwng pob risg strategol, a sut y gellid cyflawni'r sgoriau risg. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol gweld y cysylltiad rhwng y data a gasglwyd a'r risg strategol i'r gyfarwyddiaeth Pobl er mwyn sicrhau ei fod wedi ei wreiddio ar draws CNC. Cydnabuwyd y byddai angen darparu'r offer cywir i staff i adrodd yn erbyn digwyddiadau trwch blewyn.

21. Roedd adroddiad y trydydd chwarter ar lesiant, iechyd a diogelwch wedi cael ei gyflwyno i'r pwyllgor, ac wedi ei gymeradwyo. Yr oedd hwn bellach wedi ei ddarparu i'r Bwrdd i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd adroddiad yr ail chwarter ar lesiant, iechyd a diogelwch.**

### Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – 26 Chwefror

22. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod diweddar y pwyllgor.

### Fforwm Rheoli Tir Cymru

23. Rhoddodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod diweddar, a soniodd am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ehangu aelodaeth y fforwm. Nodwyd bod y thema ar adnewyddu natur wedi cael ei thrafod yn y cyfarfod, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gymhwyso deilliannau a chanlyniadau i berchnogion tir. Byddai gofyn i berchnogion tir hefyd ystyried beth y byddent yn ei wneud i ymateb i unrhyw heriau a oedd wedi codi yn yr adroddiad.

### Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – 3 Mawrth

24. Rhoddodd Lesley Jones, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y fforwm a gynhaliwyd ar 3 Mawrth. Roedd digwyddiad chwaraeon a her wedi ei gynnal gydag amrywiaeth o sefydliadau, ac awgrymwyd y gallai hwn fod yn faes a arweinir gan CNC. Eglurwyd y gwrthdaro posibl ynghylch gwerth y grŵp gorchwyl a gorffen, gyda'r angen i sicrhau bod yr

amgylchedd yn cael ei ddiogelu. Roedd maniffesto CNC wedi ei gyflwyno i'r fforwm, ac yr oedd wedi cael ei groesawu.

### Fforwm Pysgodfeydd Cymru – 17 Chwefror

25. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod yr wybodaeth ddiweddaraf am Fforwm Pysgodfeydd Cymru, lle trafodwyd dyfodol yr Eog Iwerydd. Roedd pwyslais ar ddatblygiad o fewn y tîm pysgodfeydd, ac roedd hwn yn faes y gellid ei flaenoriaethu. Bu'r Bwrdd yn trafod y dystiolaeth yn ymwneud â'r dirywiad ym mhoblogaeth yr Eog Iwerydd, gan roi pwyslais ar reoli dalgylchoedd. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod problemau gyda rhyddhau pysgod mewn deorfeydd, a bod trafodaeth wedi ei chynnal ynghylch datblygu syniadau ar sut i gynnal mathau penodol o'r Eog Iwerydd y gellid eu defnyddio yn y dyfodol.

### Fforwm Rheoli Dŵr Cymru – 12 Mawrth

26. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cyfarfod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd. Roedd y fforwm wedi trafod nifer o faterion, gan gynnwys cyfradd adfer afonydd, oherwydd cynhyrchion fferyllol, maethynnau ac amaethyddiaeth.

## Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Cyflwynwyr: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

27. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Cyllid, ac ymhlith y pwyntiau allweddol oedd bod yr incwm pren yn edrych yn fwy ffafriol nag yr adroddwyd yn flaenorol. Roedd y gwariant 1% y tu ôl i'r proffil, a disgwylid tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd gostyngiad refeniw o £4 miliwn wedi ei gyfleu i Lywodraeth Cymru, gyda mesurau lliniaru ar waith. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu £6 miliwn ar gyfer pensiynau, a byddai hyn yn cael ei roi i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd cyn diwedd y flwyddyn.

28. Roedd tanwariant yn y gyfalaf am amryw o resymau, er bod hyn wedi ei ddefnyddio i ategu'r les ildio ar gyfer Mynydd Cilfái a phrynu tir yn y Canolbarth. Roedd disgwyl i'r gwerthiant gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Eglurwyd nad oedd y pryniant er mwyn colli gorchudd coed, ond i wneud iawn am faint y tir. Roedd hwn yn elw net da i CNC. O'r £2 miliwn o gyfalaf a oedd yn weddill, roedd £600,000 wedi eu defnyddio; felly byddai £1.4 miliwn yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru. Yn ymwneud â chyfalaf llifogydd, byddai £700,000 yn cael eu dychwelyd.

29. Roedd yn debygol y byddai'r defnydd personol o'r fflyd, a drafodwyd gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon fel rhwymedigaeth ddiamod. Nid oedd y gwaith wedi ei gwblhau eto ar ymarfer samplu'r fflyd i ddeall a fyddai atebolrwydd. Gan na ellid diystyru hyn, byddai'n cael ei gynnwys fel rhwymedigaeth diamod. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod hyn wedi cael ei drafod, yn ogystal ag edrych ymlaen at y flwyddyn ariannol

nesaf a’r Strategaeth Ariannol. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad, a chymeradwyodd y newid yn y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y newid yn y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn i £293 miliwn.**

## Eitem 7. Dangosfwrdd perfformiad y cynllun busnes – trydydd chwarter

Noddwr: Ceri Davies, Prif Weithredwr
Cyflwynwyr: Arweinwyr yr Amcan Llesiant; Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu

30. Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol yr eitem, ac atgoffodd y Bwrdd fod hwn yn ddarn o waith sy’n datblygu. Nodwyd bod cyfarfod o’r Tîm Gweithredol wedi bod yn craffu ar y dangosfwrdd perfformiad, lle’r oedd y cyfarwyddwyr wedi herio ei gilydd i weld sut y gellid gwella perfformiad. Roedd y Tîm Gweithredol yn gweithio gyda’r Tîm Arwain i’w harwain ar y daith i gynllunio ar gyfer mwy nag un flwyddyn, gan sganio’r gorwel a sicrhau eu bod ar y trywydd cywir. Roedd y Tîm Gweithredol hefyd wedi adolygu’r perfformiad mewnol gyda phwyntiau allweddol wedi eu cynnwys yn y papur hwn. Byddai’r sesiynau hyn yn y Bwrdd yn sicrhau bod y Tîm Gweithredol yn cael eu dwyn i gyfrif am berfformiad CNC, drwy ddangos y llwybr i fod yn wyrdd, neu egluro pryd y byddai angen parhau â chamau.

31. Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd bod y gwaith ar effeithiau a dangosyddion strategol ar gyfer y cynllun corfforaethol wedi ei ohirio oherwydd yr achos dros newid. Er y byddai hyn yn waith pellach i’r tîm yn y dyfodol, roedd adnoddau ychwanegol wedi eu hystyried yn y maes hwn ar gyfer cynllunio a pherfformiad.

32. Awgrymwyd bod angen mwy o esboniad o’r data y tu ôl i’r metrigau gwasanaeth ar gyfer yr amser y mae’n ei gymryd i gwblhau ymatebion a chymeradwyaethau cynllunio, gan y gallai profiad y cwsmer fod yn wahanol i brofiad CNC. Nodwyd bod angen i CNC fod yn ymwybodol o effaith oediadau ar eu cwsmeriaid, oherwydd bod hyn, yn ei dro, yn effeithio ar eu busnesau.

33. Trafodwyd Mesur C18 yn ymwneud ag archwiliadau fferm oherwydd bod statws Coch ganddo. Cydnabuwyd bod y targedau a’r cytundeb lefel gwasanaeth wedi newid, ond holwyd ynglŷn â’r hyn a fyddai’n digwydd ar ôl hyn. Eglurwyd na ddisgwylid y lefel hon o ddiffyg cydymffurfio pan osodwyd y targedau gyntaf. Parhaodd trafodaethau â’r undebau ffermio i ystyried sut y gallai aelodau wella eu cydymffurfedd. Byddai hyn yn caniatáu i CNC ganolbwyntio ar feysydd sy’n peri mwy o broblemau. Pwysleisiwyd gyda’r undebau ffermio bod llawer o’r rheoliadau wedi bod ar waith cyn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd offer eraill fel cytundebau rheoli tir yn cael eu hystyried. Awgrymwyd na ddylid rhoi cyllid drwy gyllid gwyrdd nes bod lefel briodol o gydymffurfedd yn y sector.

34. Pwysleisiwyd bod angen i’r metrigau newydd ar gyfer 2026–2027 fod yn gyraeddadwy, gyda chytundebau lefel gwasanaeth clir ar waith. Roedd angen gwell

trafodaeth rhwng CNC a'r sector amaethyddol, oherwydd bod ganddyn nhw ddyletswydd gofal i'r amgylchedd sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r tir yng Nghymru. Byddai'n bwysig i ddod â nhw ar y daith gyda CNC. Roedd angen ystyried sut y gallai CNC helpu perchnogion tir gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

35. Croesawodd y Bwrdd y drafodaeth, a chymeradwyodd y dangosfwrdd perfformiad ar gyfer y trydydd chwarter.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y dangosfwrdd perfformiad ar gyfer y trydydd chwarter.**

## Eitem 8. Amcan llesiant 4

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyflwynwyr: Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni; Fen Turner, Arweinydd Tîm, Dulliau Integredig ar gyfer Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd; Derek Walker, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; Helen Nelson, Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

36. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yr eitem, a rhoddodd drosolwg o Amcan Llesiant 4, Sut yr Ydym yn Gweithio, fel arweinydd y Tîm Gweithredol. Roedd yr amcan llesiant wedi ei ddrafftio a'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn 2025, ac amlinellwyd y camau nesaf. Byddai chwe maes ffocws gan gynnwys: arweinyddiaeth a diwylliant; gwasanaeth cwsmeriaid; gwasanaethau digidol, gan gynnwys symleiddio prosesau; cyfathrebu, partneru ac eiriolaeth; data a thystiolaeth. Darparwyd y platfform cwsmeriaid morol fel enghraifft o'r pwyslais ar wasanaethau digidol. Er nad oedd cyllideb ddigidol bwrpasol gan Lywodraeth Cymru, byddai'r enghreifftiau hyn yn dangos i'r Llywodraeth beth y gellid ei wneud pe bai cyllid yn cael ei ddarparu.

37. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth drosolwg o brosiect dalgylch afon Teifi, a sut yr oedd hyn yn wahanol i brosiectau eraill. Roedd pwyslais wedi bod ar y gymuned a'r rhai a ddefnyddiodd yr afon, er mwyn deall sut y gallai gweithio ar y cyd wella'r dŵr a bod o fudd i natur. Byddai canlyniad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gael yn fuan iawn, ac roedd y cais hwn wedi cynnwys dangos sut y byddai'r diwylliant a'r gymuned yn cael eu hystyried. Nodwyd bod dull tebyg yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gyda phrosiect Uwch Conwy.

38. Roedd angen edrych yn gyfannol ar y gwaith yr oedd angen ei roi ar waith ar draws y sefydliad, ond byddai hyn yn dasg hirdymor. Byddai angen ystyried data amgen hefyd ar gyfer gwaith yn y dyfodol, fel ym Mhrosiect Natur a Ni pan oedd profiadau pobl wedi eu cynnwys fel data. Byddai'r materion hyn yn cael eu datrys drwy ddatblygu arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad. Byddai angen magu hyder mewn cydweithwyr er mwyn iddyn nhw feithrin cydberthynasau â rhanddeiliaid a chymunedau.

39. Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd bod arolygon o ganfyddiad wedi eu cynnal i ddeall y rhwystredigaethau a wynebir gan y rhai sy'n gweithio gyda CNC. Amlygwyd cydlynu ar draws y sefydliad fel thema allweddol, a byddai angen ystyried sut i siarad fel un llais. Er bod enghreifftiau da o weithio gyda CNC, nid oedd hyn yn gyson, ac roedd angen newid diwylliant.

40. Cwestiynwyd y gwrthdaro rhwng gweithio ar ddull cenedlaethol yn erbyn dull lleol, ac esboniwyd mai gweithio ar ddull lleol oedd orau ar gyfer meithrin ymddiriedaeth gyda chymunedau. Roedd hyn yn fantais o gael dull sy'n canolbwyntio ar Le, ond roedd hefyd yn anodd pan oedd angen gweithio ar ddull cenedlaethol. Hysbyswyd y Bwrdd mai un o'r ffyrdd yr oedd CNC wedi gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol oedd trwy ddefnyddio un o'u hoffer i ddeall aeddfedrwydd CNC yn gweithio gydag eraill. Esboniodd y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod yr offeryn yn ymarfer hunanasesu, a'i fod wedi profi'n ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus eraill. Anogwyd bod CNC yn defnyddio hyn ymhellach, a byddai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gallu cynghori yn dilyn dadansoddiad o'r canlyniadau.

41. Awgrymwyd y dylai'r pum ffordd o weithio fod wrth wraidd Amcan Llesiant 4. Byddai gwahanol ffyrdd o fonitro perfformiad amcanion llesiant trwy fwrdd portffolio'r Tîm Gweithredol newydd. Nid oedd rhaglen benodol ar Amcan Llesiant 4 gan y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud trwy fusnes fel arfer. Byddai drafft yr amcan llesiant yn cael ei anfon at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dilyn y cyfarfod.

**CAM GWEITHREDU: Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni i anfon drafft o Amcan Llesiant 4 at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

42. Heriwyd y dylai Amcan Llesiant 4 fod yn wahanol i'r hyn a oedd eisoes ar waith, ac esboniwyd y byddai hyn yn pwysleisio ar newid diwylliant ac yn adlewyrchiad o'r ffordd y mae CNC yn gweithio. Awgrymwyd hefyd fod angen gwneud y drafft o'r amcan llesiant ar y cyd â chydweithwyr er tryloywder.

43. Darparwyd enghraifft o Amcan Llesiant 2, gyda datgarboneiddio yng Nghymru a CNC yn gweithio gyda datblygwyr. Pe bai modd galluogi'r datblygu economaidd, byddai hyn yn cyflawni 30% o ddatgarboneiddio. Roedd gweithio ar y cyd yn fuddiol i sefydlu'r cyfrifoldebau rhwng y ddwy ochr. Byddai arferion da yn cael eu dilyn mewn meysydd eraill i'w gwella.

44. Ymddengys bod camlinelliad rhwng CNC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar Amcan Llesiant 4, ac awgrymwyd y dylid bod yn fwy agored a thryloyw, i gyflwyno'r Amcan Llesiant 4 drafft pan fyddai'n barod i'r Comisiynydd. Eglurwyd bod perthynas dda rhwng y ddau sefydliad, a'i bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth eirioli i Lywodraeth Cymru gyda'i gilydd. Y prif thema o adroddiad diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol oedd bod ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau cyhoeddus ar ei lefel isaf erioed. Byddai'n hanfodol dod â'r cyhoedd ynghyd â CNC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i wella'r amgylchedd, gan y byddai gwaith cymunedol yn hanfodol.

45. Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y byddai'r rhwydwaith cyd-gynhyrchu yn ddefnyddiol i roi cyngor i CNC ar Amcan Llesiant 4, yn ogystal â'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei hunan. Dywedodd Helen Nelson y gallent hefyd adolygu'r hunanasesiadau yr oedd cyrff cyhoeddus wedi eu cynnal i weld a oedd unrhyw ddysgu y gellid ei fabwysiadu. Byddai'r rhwydwaith cyd-gynhyrchu yn hwyluso Diwrnod Cynllunio Strategol y bwrdd ym mis Ebrill.

46. Darparwyd enghraifft o Amcan Llesiant 3 gyda'r mater ACA Morol a'r angen i gyflawni niwtraliaeth maethynnau ar gyfer tri safle dynodedig. Nid oedd hyn mor sefydledig â phrosiectau eraill, ond roedd hyn yn gyfle i ddysgu o'r prosiectau hyn. Roedd tasglu ACA morol yn ffordd gadarnhaol o ddod â sefydliadau ynghyd, ond roedd cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd.

47. Roedd CNC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, ac ar gyflymder, i gwblhau Amcan Llesiant 4, er mwyn sicrhau Cymru wydn a llewyrchus. Pwysleisiwyd bod angen cymryd gofal i beidio ag ychwanegu haen lywodraethu ddiangen ychwanegol.

## Eitem 9. Cyflwyniad Lle

Noddwr: Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Lle a Gwasanaeth
Cyflwynwyr: Gavin Bown, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru

48. Cyflwynwyd yr eitem gan Gyfarwyddwr Gweithredol Lle a Gwasanaeth. Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo ledled y Canolbarth. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a choedwigoedd. Amlinellwyd y cyfleoedd i gefnogi a gweithio gydag eraill mewn perthynas â chynaliadwyedd. Roedd amrywiol alwadau ar y tir yng ngofal CNC y byddai angen eu blaenoriaethu, a chyflwynwyd yr heriau o ran rheoli'r cynnydd mewn amrywiol gostau.

49. Bu cynnydd yn yr effeithiau ar iechyd planhigion a thanau gwyllt. Nodwyd bod CNC yn rheoli 4,000 hectar o warchodfeydd naturiol morol ledled y Canolbarth, a nifer o asedau perygl o lifogydd, wrth weithio ochr yn ochr â pherchnogion tir a chymunedau. Roedd tîm Gweithrediadau'r Canolbarth yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella'u gwydnwch a pha mor barod ydynt.

50. Cyflwynwyd organogram am y staff presennol, y staff newydd a'r swyddi gwag o fewn y tîm, a thynnwyd sylw at y cynnydd a wnaed ar recriwtio a'r blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cyflwynwyd lleoliad y timau o fewn Gweithrediadau'r Canolbarth, o'r ardaloedd gwaith a'r dosbarthiad ar draws y prif amcanion llesiant.

51. Cyflwynwyd trosolwg o ddatganiad ardal y Canolbarth, ochr yn ochr â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ategu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Nodwyd bod yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar, a bod y datganiadau ardal yn cael eu defnyddio i fframio'r gwaith a wnaed yn y tîm, gan gynnwys sut i gydweithio ag eraill. Cyflwynwyd y cysylltiad rhwng y datganiadau ardal a'r amcanion llesiant, a oedd yn cynnwys sut y byddai CNC yn

ymateb i’r argyfwng hinsawdd. Roedd cyfle i weithio mewn partneriaeth, lleihau asesiadau o risg newid hinsawdd, newid arfordirol, ac i nodi’r ffactorau a oedd yn effeithio ar yr amgylchedd.

52. Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y tîm Tir ac Asedau. Cafwyd amlinelliad o sut y gellid defnyddio rheolaeth ystad CNC i gynyddu darpariaeth gwasanaethau ar raddfa’r dalgylch a chost unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud. Nodwyd bod aelodau staff ychwanegol wedi cael eu cyflogi, gan gynnwys myfyrwyr a oedd wedi penderfynu aros yn CNC. Roedd rhaglen i raddedigion ar waith, ac roedd nifer yr ymgeiswyr wedi bod yn fwy na’r disgwyl. Tynnwyd sylw at yr heriau yn y Canolbarth, ac ymateb CNC fel tîm Lle. Rhoddwyd cyflwyniad ar effeithiau Storm Darragh (2024), ac roedd y tîm yn y broses o asesu a mapio’r effaith, gan gynnwys diogelwch staff a chontractwyr.

53. Nodwyd bod CNC yn rheoli 1,300 cilometr o ffyrdd, ac amlinellwyd y rhwymedigaethau a oedd yn cael eu rheoli yn y Canolbarth. Cyflwynwyd y prosiect Hanner Ffordd Drwodd, gan gynnwys enghreifftiau o’r gwaith a oedd wedi ei gwblhau. Cyflwynwyd trosolwg o’r gwarchodfeydd natur cenedlaethol a’r safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a reolir gan CNC.

54. Eglurwyd rôl rheoleiddio a gorfodi CNC mewn perthynas â safleoedd gwarchodedig, ac ansawdd a maint dŵr. Cyflwynwyd hefyd y tirweddau arbennig yng Nghymru, a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a chydymffurfedd amaethyddol. Nodwyd bod gan 26 o’r safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig statws ardal cadwraeth arbennig hefyd, a bod 40,000 hectar o ardaloedd gwarchodaeth arbennig. Roedd disgwyliad ar CNC fel rheoleiddwyr mewn perthynas â chydymffurfedd amaethyddol, gorfodi pysgodfeydd a rheoli gwastraff.

55. Cyflwynwyd rôl peilonau drwy’r Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu a’r ffordd y mae CNC yn ymateb i’r ymgynghoriad statudol, a oedd wedi cynnwys amrywiaeth o dimau gwahanol ar draws CNC. Roedd pryderon wedi eu codi ynghylch y gwahanol seilweithiau grid, gan gynnwys ymatebion a oedd wedi eu ffurfio gan dystiolaeth a rôl CNC.

## Eitem 10. Unrhyw fater arall

56. Nid oedd unrhyw faterion eraill i’w trafod.

## Diwedd y cyfarfod cyhoeddus